EIDCymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhestr Wirio:
# Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr

**Dim ond i'ch helpu y mae'r rhestr wirio hon ac NI FYDD yn cael ei derbyn fel ffurflen stocrestr.**

Y ffordd gyflymaf i gwblhau eich stocrestr yw drwy eich cyfrif EIDCymru.

Os nad ydych chi wedi cofrestru i greu cyfrif, gallwch gwblhau'r stocrestr drwy borth ar-lein EIDCymru.

## Pa wybodaeth sydd ei hangen arnaf i gwblhau fy stocrestr flynyddol?

**Cyn ichi fynd ati, gwnewch yn siŵr bod gennych chi'r wybodaeth ganlynol wrth law:**

- [ ] Y cod 6 digid unigryw sydd wedi'i argraffu ar eich llythyr/e-bost yn eich gwahodd i gwblhau'r stocrestr. (Bydd ond ei angen os nad oes gennych chi gyfrif EIDCymru ar-lein.)
- [ ] Eich prif Rif Daliad (CPH) yn y ffurf yma 00/000/0000.
- [ ] Bydd angen **CPH** pob **lleoliad** lle'r ydych chi'n cadw defaid a/neu'r geifr ar 1 Rhagfyr arnoch a **chofnod cywir** o **nifer eich holl anifeiliaid** ar **bob CPH unigol**.

Os oes angen help arnoch i ddod o hyd i CPH tir comin, ebostiwch EIDCymru ar **cymorth@eidcymru.org** neu ffôn **01970 636959**.

**Ar gyfer pob CPH lle mae defaid a/neu eifr yn bresennol ar 1 Rhagfyr, rhaid i chi gofnodi'n gywir nifer yr anifeiliaid yn y categorïau canlynol ar eich rhestr. Isod mae enghraifft i'ch tywys:**

| **CPH** – lle y mae defaid wedi'u lleoli ar **1 Rhagfyr** | Nifer y **defaid magu wedi'u troi at hwrdd** | Nifer yr **ŵyn benyw magu wedi'u troi at hwrdd** | Nifer yr **ŵyn benyw sy'n cael eu cadw ar gyfer magu nad ydynt wedi'u troi at hwrdd** | Nifer yr **ŵyn tew/stôr** | Nifer yr **hyrddod** | Nifer y **defaid eraill** (nad ydynt wedi'u cynnwys yn y colofnau eraill) | Nifer y **geifr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *00/000/0000* | *10* | *4* | *2* | *5* | *1* | *2* | *10* |

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52796
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh